# Adroddiad ar Sgwrs Rhwydwaith Cenedlaethol - Galluogi Dysgu

## Cyflwyniad

Canolbwyntiodd y Sgwrs hon, sy'n un o Sgyrsiau'r Rhwydwaith Cenedlaethol, ar sut y gall y canllawiau Galluogi dysgu gefnogi ymarferwyr wrth drefnu, cynllunio, a gweithredu cwricwlwm sy'n briodol yn addysgegol i ddysgwyr ac sy'n gynhwysol i bawb. Roedd y sgwrs hon yn adeiladu ar sgwrs flaenorol y Rhwydwaith Cenedlaethol, sef Pwrpas, addysgeg a chynnydd, a gynhaliwyd yn nhymor haf 2024 a oedd yn canolbwyntio ar sut mae profiadau cynnar y Cwricwlwm i Gymru yn dylanwadu ar addysgeg i arwain a chynllunio ar gyfer dysgu.

Roedd y Sgwrs wedi darparu fforwm i ymarferwyr mewn lleoliadau ac ysgolion, ac i staff o fewn awdurdodau lleol sy'n darparu cymorth uniongyrchol ar draws ysgolion cynradd a lleoliadau yng Nghymru, drafod pwysigrwydd datblygiad plant, rôl yr oedolyn sy'n galluogi dysgu, a chymorth ar gyfer darllen. Roedd y rhai a ymunodd yn cymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd yn ystod y dydd, yn sgil gwrando ar gyflwyniadau gan arweinwyr ac arbenigwyr o bob rhan o'r sector:

- Fideo agoriadol gan yr Athro Graham Donaldson i osod yr olygfa
- Cyflwyniad y prif siaradwr, Dr Stella Louis, ymgynghorydd blaenllaw ym maes y blynyddoedd cynnar ar sut mae galluogi dysgu a'r llwybrau datblygu yn cefnogi ac yn arwain ymarfer.
- Cyflwyniadau ar arferion effeithiol gan ysgolion, lleoliadau, gan gynnwys ysgol arbennig a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd
- Panel Cwestiwn ac Ateb sy'n cynnwys cynrychiolaeth gan Lywodraeth Cymru, Estyn a chyflwynwyr yr arferion effeithiol
- Fideo i gloi gan Georgina Haarhoff, Cyfarwyddwr Addysg

## Adborth am y diwrnod

## a) Datblygiad plant

- Mae graddau amrywiol o wybodaeth a dealltwriaeth am ddatblygiad plant a phobl ifanc ar draws y sector. Roedd y cyfranogwyr yn credu y dylid cryfhau dysgu proffesiynol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc ar gyfer pawb sy'n ymwneud ag addysg.
- Gallai gwell dealltwriaeth o ddatblygiad plant gefnogi ymarferwyr i gydnabod pryd y gallai ymddygiad plentyn fod yn dangos sgemâu / patrymau ailadroddus o ymddygiad, neu anghenion heb eu diwallu, a phryd y gallent fod yn anghenion dysgu ychwanegol.
- Mae gan blant amrywiaeth eang o anghenion dysgu, profiadau a thrawmâu. Mae amgylcheddau ac addysgeg briodol yn rhoi cyfleoedd i blant fynegi eu hemosiynau trwy ymarfer sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a dysgu seiliedig ar chwarae.
- Roedd pwysigrwydd dod i adnabod plant, eu cefndiroedd a'u diddordebau yn cael eu cydnabod, ond nid oedd hynny bob amser yn cael ei roi ar waith. Gall fod gormod o bwyslais ar ddogfennaeth a thracio yn hytrach na'r broses a'r dewisiadau addysgegol i gefnogi'r camau nesaf wrth ddysgu ar gyfer gwneud cynnydd.
- Ymhlith y meysydd a awgrymir ar gyfer dysgu proffesiynol yr oedd arsylwi, sgemâu a dysgu sy'n seiliedig ar chwarae. Mae arsylwi yn ddull sydd yng ngham cynnar ei ddatblygiad mewn ysgolion, yn enwedig ymhlith grwpiau blwyddyn hŷn.
- Cafodd y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir ei ganmol am ei effaith mewn lleoliadau a dosbarthiadau'r blynyddoedd cynnar mewn ysgolion sy'n ei ddefnyddio.

## b) Oedolion sy'n Galluogi Dysgu

- Roedd lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth mewn perthynas â galluogi dysgu a'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.
- Canfu ymarferwyr a oedd wedi defnyddio dull galluogi dysgu ei fod yn effeithiol yn eu lleoliadau wrth lunio eu gweledigaeth, er enghraifft wrth ddatblygu cysylltiadau cadarnhaol ac amgylcheddau pwrpasol. Mae'r canllawiau'n ennyn hyder staff gan eu bod wedi'u hysgrifennu gan ymarferwyr ar gyfer ymarferwyr. Maent yn rhoi amser iddynt arafu, ystyried eu hymarfer, a chanolbwyntio ar dair elfen Galluogi dysgu i greu darpariaeth o safon.

- Mae'n ddefnyddiol i gefnogi cynorthwywyr addysgu i ddeall eu rôl fel oedolion sy'n galluogi dysgu.

- Mae meithrin perthynas a chysylltiadau cryf â rhieni a theuluoedd yn bwysig, yn enwedig mewn perthynas â phlant anodd eu cyrraedd. Mae angen cyfathrebu da ac ennyn ymddiriedaeth, yn enwedig er mwyn annog dull gweithredu'r Ysgolion Bro o ran dysgu.

  Rhannodd cyfranogwyr rai syniadau ar nodweddion cyffredin oedolion sy'n galluogi dysgu. Nodwyd y canlynol:

  - bod angen arnynt ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a phobl ifanc i roi lle canolog i'r plentyn yn y broses ddysgu
  - eu bod yn darparu ymdeimlad o berthyn a chynwysoldeb i ddysgwyr
  - eu bod yn cael y rhyddid i sylwi, dadansoddi ac ymateb fel rhan o'u harsylwi
  - eu bod yn sicrhau bod y ddarpariaeth o safon uchel
  - eu bod yn adnabod eu plant i'w galluogi i gymhwyso'r hyn maen nhw'n ei ddysgu drwy amrywiaeth o gyfleoedd
  - eu bod yn deall pwysigrwydd defnyddio 'adnoddau naturiol' a bod yn llawen
  - eu bod yn darparu croeso cynnes i gefnogi amgylchedd sy'n ddiogel yn emosiynol a datblygu cysylltiadau cryf â rhieni/gofalwyr o'r cychwyn, i hwyluso cyfnod pontio esmwyth
  - eu bod yn rhoi sylw i'r hyn y *gall* y plentyn ei wneud

## c) Cymorth darllen

### Dulliau gweithredu

- Creodd rhai ysgolion eu dull eu hunain ar gyfer dysgu darllen sy'n seiliedig ar ddethol deunyddiau a dulliau o wahanol gynlluniau. Cynlluniau eraill a ddefnyddir yw Read, Write Inc, Tric a Chlic, Jolly Phonics, Monster Phonics, Chatt, neu Salley.

- Roedd ymarferwyr yn teimlo bod rhaglenni ffoneg yn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu gweithio yn ôl gallu eu hun gan eu bod wedi'u trefnu'n grwpiau o'r un lefel. Ni waeth beth fo'r dull a ddefnyddir, mae angen cyd-ddealltwriaeth ar draws yr ysgol, ac mae angen rhannu'r dull hwnnw â rhieni. Arferai'r cynlluniau gael eu cymeradwyo gan nad oedd hyfforddiant arall ar gael ar gyfer addysgu darllen.

- Mae angen i sgiliau darllen cynnar fod yn briodol yn ddatblygiadol gyda phwyslais ar weithgareddau cyn darllen ac amgylchedd i ysbrydoli plant i fwynhau darllen. Mae cefnogi sgiliau cyn darllen a'r camau cyn codi llyfr i'w ddarllen yn hanfodol, ac yn sicrhau dull cyfannol o ddatblygu sgiliau darllen, yn hytrach na dim ond sesiynau ac amseroedd wedi'u trefnu.

### Lefel y cymorth

- Roedd rhai yn teimlo eu bod yn llawer llai hyderus am y dysgwyr hynny nad oedd ganddynt sgiliau darllen a oedd yn cydamseru â'u hoedran cronolegol. Er bod plant yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, mae dull strategol a blaengar yn hanfodol, ac un sy'n seiliedig ar anghenion y plentyn, i sicrhau bod plant yn dysgu darllen.

- Efallai na fydd gwybodaeth asesu plant bob amser yn dangos eu cynnydd. Mae angen i bob plentyn gael ei ddull arbennig ei hun o ddysgu darllen.

- Rhaid deall nad yw datblygu sgiliau darllen yn faes annibynnol ond yn hytrach fe'i datblygir ar draws pob maes. Mae'n fuddiol cynnig cymorth yn ôl cyfnod allweddol, ac nid yn ôl oedran, i grwpiau o blant yn ogystal ag unigolion, sy'n cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd darllen – darllen ar y cyd, darllen unigol, darllen dan arweiniad a defnyddio llyfrau ar-lein y gellir eu rhannu gartref.

- Nodwyd rhai rhwystrau: nad yw llyfrau sy'n mynd adref yn cael eu dychwelyd, colli gwasanaeth llyfrgell ysgolion, a thechnoleg sy'n effeithio ar awydd plant i ddarllen llyfrau go iawn. Mae rhai ysgolion yn delio â phroblemau llythrennedd a lles rhieni hefyd, er enghraifft nid yw llythyrau a anfonir adref yn cael eu darllen.

# Casgliadau am y diwrnod

## Datblygiad plant

- Yr hyn a fyddai'n cefnogi ymarferwyr yw cryfhau gwybodaeth a dealltwriaeth y gweithlu ynghylch maes datblygiad plant a phobl ifanc, gan gynnwys sicrhau fod y maes hwnnw'n cael ei adlewyrchu mewn cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.

## Galluogi dysgu

- Yr hyn a fyddai'n ddefnyddiol iawn wrth drefnu a chynllunio, gan gynnwys wrth gefnogi hunanwerthuso, ymarfer ystyriol a chynnydd yw deall sut mae ymgorffori dull Galluogi dysgu yn cefnogi ymarferwyr i ddatblygu cwricwlwm sy'n briodol yn addysgegol ac yn ddatblygiadol ac sy'n gynhwysol i bob dysgwr.

- Mae defnyddio terminoleg gyson trwy ddull Galluogi dysgu, Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, a Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru, a chanolbwyntio ar y tair elfen sy'n Galluogi dysgu yn cefnogi'r ddarpariaeth i blant.

## Cefnogi darllen

- Byddai dull cenedlaethol o addysgu darllen ar gyfer y gweithlu a rhoi sylw i gaffael darllen cynnar mewn cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, gan gynnwys ar gyfer addysgu mewn ysgolion uwchradd, o fudd i ymarferwyr.

- Byddai adnoddau i rieni gefnogi eu plentyn/plant wrth ddarllen yn ddefnyddiol.

- Mae angen cyngor pellach os oes disgwyl i bob awdurdod lleol ddilyn y rhaglen 'Siarad gyda Fi' er mwyn sicrhau cysondeb. Nid yw'r ymgyrch *Siarad gyda fi* yn orfodol. Bydd Awdurdodau Lleol yn cael eu hannog a'u cefnogi i weithredu Prosiect Pengwin; y llwybr hyfforddi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu a'r Rhaglen Dysgu Teuluoedd.

## Y camau nesaf

- Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu â thimau polisi perthnasol Llywodraeth Cymru i annog sylwadau ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu rhagor o gymorth ar gyfer ymarferwyr ym meysydd datblygiad plant a phobl ifanc, dysgu proffesiynol, a llythrennedd, iaith a chyfathrebu.

- Cynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu Galluogi Dysgu yn nhymor y gwanwyn.  Roedd y digwyddiadau hyn i wella gwybodaeth a dealltwriaeth i benaethiaid ac uwch arweinwyr ym mhob ysgol ledled Cymru.